Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.01.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Grant Gwella Eiddo Canol Tref Gwynedd – peidiwch â cholli allan!

Eisiau gwella golwg eich eiddo ar y stryd fawr? Mae Grant Gwella Eiddo Canol Tref Gwynedd yma i helpu a gall dalu hyd at 70% o'r costau (uchafswm o £25,000). Mae hyd at £10,000 (50% o'r costau) hefyd ar gael i berchnogion adeiladau diangen, neu heb eu defnyddio ddigon, ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/GrantGwellaEiddoCanolTrefi

Mae gan Gyngor Gwynedd hefyd fenthyciadau di-log i helpu i uwchraddio adeiladau yn ein canol trefi. I ddysgu mwy, ewch i:

http://bit.ly/CronfaCanolTref

# RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd 27 Ionawr 2022

Mae menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, yn gweithio i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, a helpu busnesau i hyrwyddo eu cyfleoedd gwaith. Bydd Gwaith Gwynedd yn cynnal ffair swyddi ar gyfer y sector gweithgynhyrchu ar 27 Ionawr 2022 o 3:30pm– 5:30pm. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â:

gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru neu galwch 01286 679211

Ceir mwy o wybodaeth yn:
http://bit.ly/GwaithGwynedd

# ARIANNU: Cronfa Sefydlogrwydd Diwylliannol y Gaeaf yn agor 12 Ionawr 2022

Bydd Cronfa Sefydlogrwydd Diwylliannol y Gaeaf gwerth £5.25m Llywodraeth Cymru yn agor ar gyfer ceisiadau Dydd Mercher 12 Ionawr 2022, yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2022. Bydd y gronfa yn cefnogi sefydliadau celfyddydol Cymru, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a sinemâu annibynnol sydd mewn perygl o gau, neu bod swyddi'n cael eu colli, o ganlyniad uniongyrchol i effaith barhaus COVID-19. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydi 5:00pm ar 26 Ionawr 2022. Am fwy o fanylion, ewch i:

https://llyw.cymru/sefydlu-cronfa-sefydlogrwydd-diwylliannol-y-gaeaf-gwerth-525m

# BREXIT: Cludo nwyddau i mewn ac allan o'r DU gan ddefnyddio faniau neu geir a threlars o 21 Mai 2022

Gellir gweld canllawiau wedi'u diweddaru ynghylch yr hyn y mae angen i gwmnïau trafnidiaeth a negeswyr ei wneud i ddefnyddio faniau a cheir a threlars dros 2.5 tunnell i gludo nwyddau i mewn ac allan o'r DU o 21 Mai 2022 ar:

https://bit.ly/3yGS0dd

# BREXIT: Teithio Ewrop – rhestrau gwirio ar gyfer y sectorau celfyddydau, diwylliannol, creadigol a threftadaeth

Mae rhestrau gwirio ar deithio Ewrop ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sectorau celfyddydau, diwylliannol, creadigol a threftadaeth ar gael yn:

https://bit.ly/3yNVuLf

# BREXIT: Gweminarau symud nwyddau penodol rhwng Prydain Fawr ac Ewrop

Mae gweminarau cam wrth gam ar symud nwyddau penodol rhwng Prydain Fawr a gwledydd Ewrop ar gael ar:

- Sbaen
  https://bit.ly/32qSfND
- Yr Eidal
  https://bit.ly/3EaAPBW
- Gwlad Belg
  https://bit.ly/3sm8S83
- Yr Iseldiroedd
  https://bit.ly/3J5ujA1

- Yr Almaen
  https://bit.ly/3yMpW8d
- Gwlad Pwyl
  https://bit.ly/3smtfSm
- Portiwgal
  https://bit.ly/3soHo1q

## DYSGU: MADE Cymru – cyrsiau yn dechrau Chwefror 2022

Mae llefydd wedi eu hariannu'n llawn bellach ar gael ar raglenni MADE Cymru ar gyfer gweithgynhyrchwyr, 'Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0' a 'Rheoli Arloesedd'. Mae'r cyrsiau yn dechrau yn Chwefror 2022, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/

## DIGWYDDIADAU: Gweminarau Busnes Cymru

Mae gan Fusnes Cymru ystod o weminarau ar gael y mis yma gan gynnwys; cychwyn busnes, tendro a nifer o weithdai ar wneud y gorau o ddigidol. Am fwy o wybodaeth ac i archebu ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/

## DIGWYDDIADAU: FSB

Mae gan FSB nifer o ddigwyddiadau ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys technegau newydd i'ch helpu chi i gyflawni eich nodau busnes a chefnogaeth ymarferol ar fasnach ryngwladol. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar.html

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru